# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-10-10 p12**

## Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i mewn i Ffermydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru: Cylch Gorchwyl

### Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad craffu'r Is-bwyllgor i mewn i ffermydd awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2010.

### Cefndir

2. Ystyriodd y Pwyllgor bapur cwmpasu ar yr opsiynau ar gyfer cynnal ymchwiliadau yn y dyfodol yn ei gyfarfod ar 1 Hydref, a chytunodd i ystyried ffermydd awdurdodau lleol fel pwnc ar gyfer ymchwiliad craffu.

Cynhwyswyd ymchwiliad i'r pwnc yn Rhaglen Waith yr Is-bwyllgor ar gyfer 2010 a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd.

### Cylch Gorchwyl

3. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

I ystyried darpariaeth bresennol ffermydd awdurdodau lleol yng Nghymru a sut ddylid datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol;

I wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyrff perthnasol eraill.

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried:

Y wybodaeth ystadegol sydd ar gael am ffermydd awdurdodau lleol yng Nghymru a chyflwr presennol y rhwydwaith;

Cyfraniad y rhwydwaith ffermydd awdurdodau lleol yn y dyfodol i ddarparu pwynt mynediad ar gyfer newydd-ddyfodiaid i ffermio a hybu datblygiad tenantiaid presennol o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat;

Sut all deddfwriaeth tenantiaeth ddarparu cydbwysedd rhwng yr hyblygrwydd sydd ei angen ar newydd-ddyfodiaid a'r sicrwydd hirdymor sydd ei angen ar gyfer y rheolaeth orau o'r tir;

Sut mae annog buddsoddiad mewn, ac amrywiaeth o, ffermydd ar gyfer tenantiaid tra'n cynnal maint yr ystâd ffermydd awdurdodau lleol;

Os oes angen cyd-lynu'r dull o gadw a/neu waredu ar ffermydd awdurdodau lleol;

Os oes unrhyw gamau pellach y gall awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu cymryd i gynnal a datblygu'r rhwydwaith awdurdodau lleol yn y dyfodol, er mwyn datblygu'r ystadau eu hunain a chyfrannu at amcanion cymunedol ac amgylcheddol ehangach.